**LC385**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU        LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) 1995. Mae'r diwygiadau, ymhlith pethau eraill, yn darparu ar gyfer eithrio gwerthiannau adwerthol cynhyrchwyr sy'n cynhyrchu nifer cyfyngedig o adar a chwningod bob blwyddyn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae'n ymddangos bod y diwygiad canlyniadol yn rheoliad 3 wedi'i ddrafftio yn ddiffygiol. Rhoddwyd cyfeiriad at offeryn statudol yn lle'r geiriau "The Meat (Disease Control) (England) Regulations 2000", ond y geiriau a ddylai fod weddi'u disodli yw "Rheoliadau Cig (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2000". Yn ogystal, dylai'r cyfeirnod a amnewidiwyd fod yn "OS 2000/2257 (Cy.150)"

Ystyrir y gellid cywiro'r diffygion hyn trwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. O ganlyniad, yn ddarostyngedig i osod Memorandwm Cywiriadau priodol gerbron y Cynulliad, nid yw hwn yn fater y bydd angen i'r Pwyllgor adrodd arno yn ffurfiol o dan RhS 11.5.

Tynnwyd sylw'r cyfreithiwr a'u drafftiodd at amryw o fân bwyntiau teipograffyddol a phwyntiau cyffelyb y byddai'n briodol eu cynnwys yn y Memorandwm Cywiriadau.

Mick Bates AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

11 Rhagfyr 2001